

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod BLYNYDDOL y Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol ar y 7fed o Orffennaf 2022.

- 1 Croesawu'r Cyhoedd - Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.
- 2 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - Cynigiwyd John Jones ymlaen fel Cadeirydd a chynigiwyd Megan Lloyd Williams fel is-gadeirydd. (Huw Pritchard yn cynnig a Gwenno Emlyn Huws yn eilio)

Diolchodd y Clerc i'r cyn-gadeirydd Richard Williams, Prenteg, am ei arweiniad a chefnogaeth yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.
- 3 Presennol - John Jones (Cadeirydd) - Garndolbenmaen, Edward Evans - Bryncir, Huw Pritchard - Pentrefelin, Gwenno Emlyn Huw - Penmorfa, Richard Williams, Gwilym Evans - Prenteg.
- 4 Ymddiheuriadau Mike Jones, Clifford Williams, Megan Lloyd Williams, Cynghorydd June Jones.
- 5 Ddim yn bresennol - Richard Parry, Dafydd Thomas.
- 6 Datgan Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021 - Richard Williams yn datgan eu cywirdeb a Gwenno Emlyn Huws yn eilio.
- 7 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion - Dim
- 8 Adroddiad Blynyddol y Cyngor

Cyflwynodd y Clerc adroddiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd yr adroddiad gan Richard Williams ac eiliwyd gan Gwenno Emlyn Huws.
- 9 Unllais Cymru - Cynrychiolwyr y Pwyllgor Rhanbarth

Cytunodd Dafydd Thomas a Megan LI Williams i barhau i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor uchod.
- 10 Mabwysiadu Polisiâu'r Cyngor

Mabwysiadwyd y polisiau canlynol: Cod Ymddygiad, Cynllun Cyhoeddi, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol. Adolygwyd y Cynllun Iaith a phenderfynwyd nad oedd angen ei newid. Richard Williams yn cynnig a Huw Pritchard yn eilio.

11 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd sy'n effeithio ar y sector cynghorau cymuned a thref. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys -

- Yr angen i bob cyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer eu cyfarfodydd er mwyn sicrhau y gall pobl nad ydynt yn yr un lle gyfarfod â'u gilydd;
- Gwneud darpariaeth i'r cyhoedd gyfranogi yng nghyfarfodydd llawn cynghorau cymuned neu rannau hynny o gyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd;
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol;
- Paratoi Cynllun Hyfforddi;
- O fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod o'r cyngor gyhoeddi nodyn electroneg sy'n nodi enwau'r aelodau a fynychodd y cyfarfod, ac ymddiheuriadau am absenoldeb, unrhyw ddatganiad o fuddiant, unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod.

Bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned ystyried newid lleoliad y cyfarfodydd. Cynigiodd y Cynghorydd Gwilym Evans weld oedd offer Neuadd Prenteg yn cynnig cyswllt drwy gynhadledd fideo.

12 Aelodaeth is-bwyllgorau a'r misoedd dylid eu cynnal

Penderfynwyd trafod ym mis Medi.

12 Llawr yn Agored - dim.